



## **CYNLLUN IAITH GYMRAEG CYNGOR TREF ABERGWAUN AC WDIG**

Cynllun Iaith Gymraeg a baratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

### **1. DATGANIAD AGORIADOL**

Mae Cyngor Tref Abergwaun ac Wdig wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y bydd yn trin y Gymraeg â'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn ardal Abergwaun ac Wdig.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu dewis iaith, mai mater o arfer da yn hytrach na goddefgarwch yw eu galluogi i ddefnyddio'u dewis iaith ac y gall gwadu'r hawl i ddefnyddio eu dewis iaith eu rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol. Bydd y Cyngor felly yn cynnig i'r cyhoedd yr hawl i ddewis pa iaith i'w ddefnyddio wrth ymdrin ag ef.

Nod y Cyngor yw:

- Galluogi pawb sydd yn defnyddio gwasanaeth neu drafod gyda'r Cyngor neu'n cyfrannu at y broses ddemocrataidd i wneud hyn trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned ehangach.

### **2. CYFLWYNIAD I GYNGOR TREF ABERGWAUN AC WDIG**

Ymhlith prif ddyletswyddau'r Cyngor y mae:

- ystyried materion cynllunio;
- awgrymu gwelliannau yn ymwneud â phriffyrdd;
- cydweithio â'r heddlu i ddiogelu'r gymuned;
- darparu goleuadau Nadolig yn flynyddol;
- rhoi cymorth ariannol i nifer o fudiadau gwirfoddol ac elusenol;
- penodi cynrychiolwyr ar nifer o gyrff lleol ac allanol.

Y mae nifer o grwpiau cymdeithasol, diwylliannol a chymunedol yn chwarae rhan flaenllaw ym mywyd yr ardal. Y mae'r Cyngor yn gweithio i hyrwyddo datblygiadau cymunedol a gweithgareddau cymdeithasol gan ymateb i anghenion lleol er mwyn gwella safon byw yn yr ardal.

Mae gan y Cyngor bedwar ar ddeg o aelodau etholedig. Mae tri ohonynt yn siarad Cymraeg. Mae'r Clerc yn gweithio'n rhan amser o'r swyddfa. Nid yw'r Clerc yn ddwyieithog.

- Canran siaradwyr Cymraeg yn yr ardal yw 25%.
- Mae'r grwpiau cymunedol canlynol yn rhoi ffocws a chyd-destun i wasanaeth Cymraeg - Mudiad Ysgolion Meithrin, yr Urdd, 5 Capel Cymraeg - Hermon, Tabernacl, Pentwr, Ebenezer a Goedwig; 2 Eglwys yng Nghymru ac 1 Eglwys Gatholig; Cymdeithas Cymrodorion, CYD a Chlwb Ffermwyr Ifanc. Mae gan yr holl ysgolion cynradd y cyfle i ddysgu Cymraeg. Mae yna dri chategori - Cymraeg i deuluoedd sydd yn siarad Cymraeg, Cymraeg i deuluoedd gydag un rhiant sydd yn siarad Cymraeg a Chymraeg i deuluoedd hollol Saesneg eu hiaith.

### **3. CYNLLUNIO A CHYFLWYNO GWASANAETHAU**

#### **3.1. Polisiâu a Mentrau Newydd**

3.1.1. Wrth lunio neu ystyried polisiâu a mentrau newydd, bydd y Cyngor yn:

- asesu effaith ieithyddol unrhyw bolisiâu a mentrau gan ofalu eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith Gymraeg.
- hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, ac yn symud yn nes at weithredu'r egwyddor o gydraddoldeb yn llawn ar bob cyfle a ddaw.
- ymgynghori â Chomisiynydd y Gymraeg ymlaen llaw ynglŷn ag unrhyw fwrriad fyddai'n effeithio ar y Cynllun hwn, neu Gynllun unrhyw gorff cyhoeddus arall. Ni newidir y Cynllun hwn heb gytundeb y Comisiynydd ymlaen llaw.
- sicrhau bod y sawl sydd yn ymwneud â llunio polisiâu yn ymwybodol o'r Cynllun ac o gyfrifoldebau'r Cyngor o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
- sicrhau y bydd mesurau yn y Cynllun yn cael eu gweithredu wrth roi polisiâu a mentrau newydd ar waith.

#### **3.2. Safonau Ansawdd**

3.2.1. Bydd y Cyngor yn darparu gwasanaeth o'r un safon uchel ac yr un mor brydlon yn y ddwy iaith.

### **4. YMDRIN Â'R CYHOEDD SYDD YN SIARAD CYMRAEG**

#### **4.1. Gohebu Ysgrifenedig**

4.1.1. Bydd y Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.

4.1.2. Ni fydd ateb gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn achosi oedi afresymol.

4.1.3. Os derbynnir gohebiaeth yn y Gymraeg caiff ei ateb yn y Gymraeg.

- 4.1.4. Bydd gohebiaeth yn dilyn sgwrs ffôn neu wyneb yn wyneb neu gyfarfod lle sefydlwyd mai'r Gymraeg yw dewis iaith person yn Gymraeg, er mae'n bosibl na chynhaliwyd y drafodaeth yn y Gymraeg.
- 4.1.5. Dechreuir pob gohebiaeth ag aelod o'r cyhoedd yn ei dewis/ddewis iaith lle bo hynny'n hysbys.
- 4.1.6. Bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i gyfieithu gohebiaeth yn ôl yr angen er mwyn ateb llythyrau yn brydlon yn yr iaith wreiddiol.
- 4.1.7. Bydd papur pennawd swyddogol y Cyngor yn cynnwys datganiadau yn y ddwy iaith ac yn ei gwneud hi'n glir y croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg neu'r Saesneg.
- 4.1.8 Bydd pob cylchlythyr a llythyr safonol i'r cyhoedd yn ddwyieithog.

## **4.2. Cyfathrebu dros y Ffôn**

- 4.2.1. Gan nad yw'r Clerc yn ddwyieithog nid oes modd i'r Cyngor gynnig cyfarchiad dwyieithog, na delio â galwadau yn Gymraeg yn y lle cyntaf. Ond pan fo aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg bydd y Clerc yn cynnig trefnu bod aelod Cymraeg o'r Cyngor yn dychwelyd yr alwad mor fuan â phosibl, neu esbonio bod croeso i'r unigolyn barhau gyda'r alwad yn Saesneg neu anfon ei ymholiad yn Gymraeg trwy lythyr.
- 4.2.2. Pan ddaw swydd y Clerc yn wag, bydd yn cael ei hysbysebu drwy nodi y bydd sgiliau dwyieithog yn fanteisiol fel bod y Cyngor yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd.

## **4.3. Cyfarfodydd Cyhoeddus a drefnir gan neu ar ran y Cyngor**

- 4.3.1. Bydd unrhyw gyfarfod cyhoeddus a gynhelir i drafod yr iaith Gymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, y Dreth Gyngor neu unrhyw wybodaeth ynglŷn ag etholiadau/isetholiadau lleol, yn ddwyieithog.
- 4.3.2. Bydd pob hysbysrwydd am gyfarfod cyhoeddus yn ddwyieithog, ac yn gwahodd mynychwyr i hysbysu'r Clerc o'u dewis iaith, o leiaf o leiaf 14 diwrnod ymlaen llaw, er mwyn gallu gwneud trefniadau cyfieithu priodol ar gyfer y di-Gymraeg.
- 4.3.3. Pan fo'n hysbys ar ddechrau cyfarfod fod yr HOLL bobl yno yn siarad Cymraeg, yna cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg.
- 4.3.4. Bydd y Cyngor yn darparu offer cyfieithu i siaradwyr di-Gymraeg, yn ôl y gofyn, ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus a drefnwyd gan neu ar ran y Cyngor.
- 4.3.5. Bydd o leiaf un aelod o staff, neu Aelod Etholedig, yn bresennol mewn cyfarfodydd cyhoeddus i groesawu'r cyhoedd ac i ddelio ag ymholiadau, cwestiynau neu sylwadau yn Gymraeg, os rhoddir rhybudd ymlaen llaw.

4.3.6. Bydd unrhyw ddeunyddiau ysgrifenedig megis taflenni neu dryloywon sy'n cael eu defnyddio mewn cyfarfodydd cyhoeddus a alwyd i drafod yr iaith Gymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, y Dreth Gyngor neu unrhyw wybodaeth ynglŷn ag etholiadau/isetholiadau lleol yn ddwyieithog.

#### **4.4. Cyfarfodydd y Cyngor**

*[sef cyfarfodydd rheolaidd y Cyngor, sy'n agored i'r cyhoedd, ond lle nad yw'r cyhoedd yn rhan o'r cyfarfod]*

4.4.1. Bydd cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu cynnal yn ddwyieithog – ar gais.

4.4.2. Bydd pob hysbysiad ac Agenda o gyfarfodydd y Cyngor yn ddwyieithog – ar gais.

4.4.3. Bydd y cofnodion fel arfer yn Saesneg neu'n ddwyieithog – ar gais.

4.4.4. Bydd y Cyngor yn ymateb yn newis iaith unrhyw ymholwr i geisiadau am wybodaeth sydd yn deillio o'r cofnod, neu unrhyw ran o'r cofnod.

#### **4.5. Cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd**

4.5.1. Er nad yw'r Clerc yn ddwyieithog bydd y Cyngor yn croesawu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn y Gymraeg neu'r Saesneg, a bydd y Clerc yn gofalu bod trefniadau yn cael eu gwneud i alluogi unrhyw aelod o'r cyhoedd sydd eisiau trafod materion yn y Gymraeg i wneud hynny gydag aelod dwyieithog o'r Cyngor.

#### **4.6. Ffyrdd eraill o gyfathrebu â'r cyhoedd**

4.6.1. Pan fydd y Cyngor yn cysylltu â'r cyhoedd trwy dechnoleg fodern, sef cyfrifiaduron, e-bost, Facebook a gwefan, bydd y wybodaeth yma ar gael yn y Gymraeg ar gyfer y cyhoedd – ar gais.

### **5. WYNEB CYHOEDDUS Y CYNGOR**

#### **5.1. Hunaniaeth Gorfforaethol**

5.1.1. Enw'r Cyngor yw "Cyngor Tref Abergwaun ac Wdig Fishguard & Goodwick Town Council".

5.1.2. Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu delwedd gorfforaethol ddwyieithog.

5.1.3. Bydd enw a chyfeiriad y Cyngor yn ymddangos yn ddwyieithog ar bapur pennawd swyddogol, papur ffacs a slipiau cyfarch, [gwefan – os yn berthnasol], ac unrhyw ddeunydd cyhoeddus arall.

#### **5.2. Arwyddion**

- 5.2.1. Bydd pob arwydd gwybodaeth a godir am y tro cyntaf neu yn lle hen arwydd ar eiddo'r Cyngor yn ddwyieithog, ac felly hefyd unrhyw arwyddion gwybodaeth gyhoeddus eraill y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt. Fe fydd y ddwy iaith yn ymddangos ochr yn ochr gyda'r fersiwn Cymraeg ar y chwith. Lle bo hyn yn anymarferol bydd y Gymraeg yn ymddangos yn gyntaf. Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun yn gyfartal yn y Gymraeg ac yn y Saesneg.

### **5.3. Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau cyhoeddus**

- 5.3.1. Bydd pob deunydd a anelir at y cyhoedd, megis dogfennau a deunydd esboniadol sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, y Dreth Gyngor, gwybodaeth ynglŷn ag etholiadau/isetholiadau lleol a ffurflenni grant yn ddwyieithog gyda'r ddwy iaith yn ymddangos yn yr un ddogfen. Argraffir y ddau fersiwn ochr yn ochr lle bo'n bosibl er mwyn hwyluso croesgyfeirio, dosbarthu a chynnig dewis iaith.
- 5.3.2. Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, yn cael eu dosbarthu gyda'i gilydd a byddant yr un mor hawdd i'w cael.
- 5.3.3. Bydd pob datganiad i'r wasg yn ddwyieithog ac yn cynnwys enw cyswllt ar gyfer cyfweiliadau trwy gyfrwng y Gymraeg os bydd angen.
- 5.3.4. Bydd materion hysbysebu a chyhoeddusrwydd sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, y Dreth Gyngor a gwybodaeth ynglŷn ag etholiadau/is-etholiadau lleol yn ddwyieithog.
- 5.3.5. Bydd hysbysebion a hysbysiadau'r Cyngor sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg, addysg cyfrwng Cymraeg, y Dreth Gyngor a gwybodaeth ynglŷn ag etholiadau/is-etholiadau lleol yn cael eu gosod yn y wasg, ar hysbysfyrddau neu mewn unrhyw gyfrwng arall, yn ddwyieithog.
- 5.3.7. Bydd hysbysebion am swyddi yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg/dwyieithog, ac mewn Cymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg ac yn cynnwys isnodiad yn Saesneg.

### **5.4. Swyddogaethau statudol a hyrwyddol**

- 5.4.1. Bydd y Cyngor yn annog swyddogaethau statudol a hyrwyddol ar bob cyfle.
- 5.4.2. Pan ymgynghorir â'r Cyngor ynglŷn ag enwau strydoedd, datblygiadau ac ystadau newydd bydd y Cyngor yn cefnogi defnyddio enwau safonol neu gynhenid pan yn briodol. Lle mai dim ond mân wahaniaeth sydd rhwng y sillafiad Cymraeg â'r Saesneg o enw lle, stryd, ward, neu gymuned bydd y Cyngor yn cefnogi mabwysiadu'r ffurf Gymraeg. Bydd y Cyngor yn ceisio barn Panel Safoni Enwau Lleuedd Cymraeg os bydd ansicrwydd.

### **5.5. Gwasanaethau gan Bartion Eraill**

- 5.5.1. Bydd unrhyw drefniadau a wneir gan y Cyngor i ddefnyddio trydydd partiön i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ar ei ran yn cydymffurfio â gofynion penodol y Cynllun fel yr amlinellwyd gan y Cyngor.
- 5.5.2. Bydd angen i'r trydydd parti gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r mesurau perthnasol o'r Cynllun, trwy lythyr os yn gymwys.

## **6. GWEITHREDU A MONITRO'R CYNLLUN**

### **6.1. Staffio**

- 6.1.1. Nid yw Clerc y Cyngor yn ddwyieithog. Pan ddaw'r swydd honno yn wag bydd yr hysbyseb yn nodi bod sgiliau dwyieithog yn fanteisiol ar gyfer y swydd i sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu cymalau'r Cynllun.

### **6.2. Trefniadau Gweinyddol**

- 6.2.1. Mae gan y Cynllun hwn gefnogaeth lawn y Cyngor.
- 6.2.2. Y Clerc fydd yn gyfrifol am weithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd o fewn y Cyngor. Yn ôl y galw bydd y Clerc yn sicrhau bod canllawiau a chyfarwyddiadau ar gael i bawb sydd yn ymwneud â gweithredu'r Cynllun.

### **6.3. Y Gwasanaeth Cyfieithu**

- 6.3.1. Y Clerc fydd yn gyfrifol am anghenion cyfieithu ysgrifenedig y Cyngor, a bydd hefyd yn gyfrifol am safon pob testun Cymraeg a gynhrychir gan gyfieithydd allanol.
- 6.3.2. Os yw'r Cyngor yn penderfynu bod angen cyfleusterau cyfieithu-ar-y-pryd, y Clerc fydd yn gyfrifol am drefnu hyn.

### **6.4. Monitro**

- 6.4.1. Clerc y Cyngor fydd yn gyfrifol am fonitro gweithrediad y Cynllun.
- 6.4.2. Bydd y Cyngor yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd (trwy lythyr neu dros y ffôn) ar sut i wella unrhyw agwedd o'r Cynllun.

### **6.5. Cyhoeddusrwydd**

- 6.5.1. Bydd y Cyngor yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun.

### **6.6. Cysylltu â'r Cyngor**

- 6.6.1. Dylid cyfeirio unrhyw sylwadau, cwynion neu awgrymiadau ynglŷn â'r Cynllun at:

Mrs Catherine Bannister  
Clerc Cyngor Tref Abergwaun ac Wdig  
Neuadd y Dref  
Sgwâr y Farchnad  
Abergwaun  
Sir Benfro  
SA65 9HE  
e-bost: [clerk@fishguardgoodwick-tc.gov.wales](mailto:clerk@fishguardgoodwick-tc.gov.wales)  
Ffôn: 01348 874406

**Amserlen:** Ar ôl mabwysiadu'r ddogfen gymeradwy.